# Bil Addysg (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i **Fil Addysg (Cymru)** ('y Bil') yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar **1 Gorffennaf 2013** ac roedd yn destun **datganiad llafar** yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol. Yna, anfonwyd y Bil at **y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**, fel y'i gelwir erbyn hyn ('y Pwyllgor' o hyn ymlaen), ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad **Cyfnod 1** ym mis Tachwedd 2013. Hefyd, bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn craffu ar y Bil, gan gyhoeddi **adroddiad** yr un mis.

Trafodwyd egwyddorion cyffredinol y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar **3 Rhagfyr 2013**. Trechwyd gwelliant a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr yn 'gresynu' nad oedd rhan 3 o'r Bil (personau ag anawsterau dysgu) wedi'i chynnwys mewn Bil Anghenion Addysgol Arbennig ar wahân i blant a phobl ifanc a defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw yn erbyn y gwelliant. Cymeradwywyd egwyddorion cyffredinol y Bil, pryd y defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw o blaid y cynnig gwreiddiol. Aeth y Bil ymlaen i Gyfnod 2.

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 4 Rhagfyr 2013. Cyflwynwyd cyfanswm o 77 o welliannau. O'r rhain, cyflwynwyd 18 gan Lywodraeth Cymru. Cyfarfu'r Pwyllgor i ystyried a gwaredu'r gwelliannau ar 23 Ionawr 2014.

Mae rhagor o wybodaeth am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael yn y ddogfen **Crynodeb o Fil** a baratowyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ym mis Gorffennaf 2013.

## Gwelliannau yng Nghyfnod 2

Derbyniodd y Pwyllgor bob un o'r 18 o welliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Derbyniodd y Pwyllgor 24 o'r 59 o welliannau nad oeddent yn welliannau'r Llywodraeth. Roedd y rhain yn ymwneud â darpariaethau Anghenion Addysgol Arbennig. Cafodd pob un o'r rhain eu tynnu allan o'r Bil ac, o ganlyniad, roedd newid i'r teitl hir. Methodd y 34 o welliannau nad oeddent yn welliannau'r Llywodraeth ac ni chynigiwyd un arall yn dilyn ymrwymiad gan y Gweinidog.

Mae crynodeb isod o'r prif newidiadau a wnaed i'r Bil.

### Darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig

Roedd **gwelliannau 1 i 7**, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr, yn cynnig **cael gwared ar Ran 3 o'r Bil**. Hefyd, roedd angen 17 o welliannau canlyniadol i gael gwared ar Ran 3 o'r Bil.

Roedd Rhan 3 yn cynnig newidiadau i sut y mae penderfyniadau i dderbyn dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig i ysgolion annibynnol yn cael eu cymeradwyo a newidiadau i'r trefniadau ar gyfer asesu anghenion dysgwyr ôl-16 sydd ag Anghenion Addysgu Arbennig, a'r ddarpariaeth ganlyniadol ar eu cyfer.

Er iddo ddweud yn ystod Cyfnod 1 fod Rhan 3 yn rhan angenrheidiol o'r Bil i wneud gwelliannau ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr yn awr, cyn y ddeddfwriaeth Anghenion Addysgol Arbennig ehangach sydd ar y gweill, **dywedodd y Gweinidog mewn Datganiad gan y Cabinet ar** 6 Ionawr 2014 **y byddai'r llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant** yng Nghyfnod 2 yn y Pwyllgor. Pwysleisiodd y Gweinidog y rhan y mae'r Pwyllgor wedi ei chwarae wrth graffu ar y Bil yng Nghyfnod 1 a chytunodd, ar y cyfan, y byddai'n well cynnwys y darpariaethau Anghenion Addysgol Arbennig hyn fel rhan o Fil Diwygio Anghenion Addysgol Arbennig pwrpasol yn nes ymlaen yn y Cynulliad hwn.

Cytunwyd ar welliannau 1 i 7 a'r 17 o welliannau canlyniadol a oedd yn weddill yn unfrydol.

### Pwerau ymyrryd awdurdod lleol

Roedd **gwelliant 14** a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn diwygio *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013*. Nododd y Gweinidog mai'r

bwriad oedd egluro bwriad y Ddeddf honno fel y gallai personau a benodir gan Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau addysg awdurdod lleol wneud ceisiadau llys yn enw'r awdurdod hwnnw. Nid yw hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnwys y Bil, er bod Llywodraeth Cymru yn teimlo mai hwn oedd y cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol i wneud y newid.

Derbyniwyd gwelliant 14 a'r chwech o welliannau canlyniadol a oedd yn weddill yn unfrydol.

## Diwygiadau technegol

Roedd gwelliannau 10 a 18 yn welliannau drafftio technegol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru nad oeddent yn cyflwyno unrhyw newid o ran polisi.

Roedd gwelliant 23 yn diwygio adran 32 o *Ddeddf Addysg 2002*, sy'n ymwneud â phennu dyddiadau tymhorau ysgol, fel nad yw bellach yn gymwys i Gymru o ystyried darpariaethau'r Bil yn y maes hwn.

Derbyniwyd pob un o'r tri gwelliant yn unfrydol.

## Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol

**Rhoddwyd cefnogaeth unfrydol i welliant 12** yn enw'r Gweinidog. Mae hyn yn ychwanegu **'Datblygu gyrfaoedd'** at weithgareddau a allai fod yn ofynnol i Gyngor y Gweithlu Addysg ymgymryd â hwy mewn perthynas â hyrwyddo gyrfaoedd, er mwyn darparu sicrwydd bod datblygiad proffesiynol parhaus yn cael ei gynnwys ar wyneb y Bil. Codwyd y mater hwn yn ystod Cyfnod 1 a gwrthodwyd dau ddiwygiad pellach gan Blaid Cymru a dau gan y Democratiaid Rhyddfrydol gan y Pwyllgor.

## Darparu cyngor

Cyflwynwyd **gwelliant 11** gan Lywodraeth Cymru a oedd yn **dileu'r gofyniad i Gyngor y Gweithlu Addysg gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn y gall roi cyngor**. Fodd bynnag, bydd angen i'r Cyngor hysbysu Gweinidogion Cymru bob dau fis ynghylch unrhyw gyngor y mae wedi ei roi ar faterion perthnasol yn ogystal ag i bwy y rhoddwyd cyngor.

Derbyniwyd y gwelliant yn unfrydol.

## Gweithdrefnau deddfwriaethol

Roedd gwelliannau yn y grŵp hwn yn adlewyrchu argymhellion y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a nodwyd yn ei **adroddiad** a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013. Derbyniwyd y ddau welliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn unfrydol tra gwrthodwyd 15 gwelliant pellach a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr. Defnyddiodd y Cadeirydd ei bleidlais fwrw yn erbyn y gwelliannau.

Roedd y ddau welliant llwyddiannus a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn newid y gofyniad ar gyfer arfer dau o bwerau is-ddeddfwriaeth **gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn negyddol**. Roedd y rhain mewn meysydd lle mae Gweinidogion Cymru yn dymuno **ychwanegu swyddogaethau** i Gyngor y Gweithlu Addysg neu **bennu ffioedd cofrestru**.

## Aelodaeth y Cyngor

Derbyniwyd tri o welliannau Llywodraeth Cymru ar y pwnc hwn yn unfrydol. Roedd y prif welliant, **gwelliant 19**, yn nodi ar wyneb y Bil **y bydd Cyngor y Gweithlu Addysg yn cynnwys 14 aelod**.

Mae'r diwygiadau eraill yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud i gymhwyso'r cod ymarfer ar gyfer penodiadau cyhoeddus (a ddylai gael eu gwneud yn deg ac ar sail teilyngdod) i aelodau o'r Cyngor a'i prif weithredwr ac aelodau eraill o staff.

## Ysgolion annibynnol

Roedd **gwelliant 22**, a gyflwynwyd yn enw'r Gweinidog, yn rhoi i Weinidogion Cymru **y pŵer i ychwanegu, drwy is-ddeddfwriaeth, weithwyr addysg mewn ysgolion annibynnol** i'r rhai sydd angen cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Yn ei adroddiad Cyfnod 1, tynnodd y Pwyllgor sylw at hepgor staff mewn ysgolion annibynnol o'r gofyniad i gofrestru a nodwyd bod hyn yn wendid.

Dywedodd y Gweinidog fod darpariaeth ar gyfer yr estyniad posibl i ysgolion annibynnol yn y dyfodol yn ymateb i'r teimladau cryf a fynegwyd yn ystod Cyfnod 1, ond dywedodd fod angen gwell dealltwriaeth o'r effaith a goblygiadau hyn. Yn ogystal, amlygodd y Gweinidog y ffaith na ymghynghorwyd â'r sector annibynnol ar ofyniad i'w staff gofrestru ac felly ni ddylid cyflwyno'r gofyniad hwn yn y Bil hwn.

Cyflwynwyd gwelliant arall gan Blaid Cymru yn galw ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o fewn dwy flynedd yn nodi a fyddai gweithwyr addysg mewn ysgolion annibynnol yn cael eu hychwanegu at y gofyniad i gofrestru. Mewn ymateb, nododd y Gweinidog ei ymrwymiad i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar effaith estyniad o'r fath. O ganlyniad, ni

chynigiwyd y gwelliant ac ni ddaeth yn rhan o'r Bil.

### Gwelliannau eraill a gafodd eu trechu

Roedd diwygiadau eraill a gafodd eu trechu yng Nghyfnod 2. Roedd y rhain ym meysydd ffioedd cofrestru; disodli nifer o bwerau Gweinidogol â dyletswyddau Gweinidogion; Cod Ymddygiad ac Ymarfer Cyngor y Gweithlu Addysg; cyllid grant ar gyfer y Cyngor; dyddiadau gwyliau ysgol; a darparu diffiniad ar gyfer gweithwyr ieuenctid yng Nghymru.

## Ymrwymiadau a wnaed gan y Gweinidog

Wrth gefnogi dileu Rhan 3 o'r Bil yng Nghyfnod 2, dywedodd y Gweinidog fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio ar **Fil Anghenion Addysgol Arbennig annibynnol** sy'n gydlynol a chyfannol ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud o'r blaen y byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno yn ystod oes y Cynulliad hwn.

Yr awgrym yw y bydd cael gwared ar y darpariaethau Anghenion Addysgol Arbennig o Fil Addysg (Cymru) yn cyflymu'r broses hon a dywedodd y Gweinidog yn dweud y bydd y Bil Diwygio Anghenion Addysgol Arbennig yn cael ei ddwyn ymlaen **cyn gynted ag y bo modd**.

Mae'r Gweinidog hefyd wedi ymrwymo i **edrych ar effaith ychwanegu gweithwyr addysg mewn ysgolion annibynnol at y gofyniad** i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a **chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad o fewn dwy flynedd i'r dyddiad y caiff** Deddf Addysg (Cymru) Gydsyniad Brenhinol.

## Y camau nesaf

Paratowyd **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil**.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 3 ar 24 Ionawr 2013 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2).

Mae'r **Datganiad a chyhoeddiad busnes** wedi cadarnhau y bydd y ddadl Cyfnod 3 yn cael ei chynnal ddydd Mawrth, 11 Mawrth 2014. Caiff Aelodau gyflwyno gwelliannau hyd at ddydd Mawrth 4 Mawrth drwy e-bostio

**legislationoffice@cymru.gov.uk**

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am *Fil Addysg (Cymru)*, cysylltwch â **Michael Dauncey** ( **michael.dauncey@cymru.gov.uk)** yng Ngwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu **Gareth Rogers (gareth.rogers@cymru.gov.uk)** Clerc y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg